**Cyhoeddi cyngerdd am ddim yn yr arena**

Yn dilyn llwyddiant ' Seaside Soul ' yn 2016, mae thema'r 'enaid' yn dychwelyd i arena ddigwyddiadau'r Rhyl ar ddydd Sul 18 Awst ar gyfer y gyngerdd am ddim blynyddol.

Bydd y digwyddiad eleni yn cynnwys adloniant byw gan Jimmy James & The Vagabonds, band Edwin Starr, ' the Team ' sy'n cynnwys Angelo Starr, Precious Wilson, Midnight Soul a chyflwynwyr amrywiol.

Dechreuodd Jimmy James ei yrfa gerddorol, yn cyfansoddi a chanu, yn ifanc yn 16 oed. Yn 1964 gofynnwyd iddo ymuno fel y Prif Ganwr ag un o fandiau blaenllaw Jamaica ' The Vagabonds' a gyda'i gilydd gadawsant Jamaica am yr hyn a oedd fod yn daith chwe mis o amgylch y DU. Yn 1966 fe recordiodd The Vagabonds eu halbwm chwedlonol, ' The New Religion'. Rhoddodd recordiad Jimmy o gân ' Red Red Wine ' Neil Diamond yn 1969, a gymerwyd o'r ail albwm The Vagabonds, eu record boblogaidd gyntaf iddynt.

Yn 1970, arwyddodd i Biddu of the Subbidu Music Corporation a chyda'i gilydd, fe grewyd caneuon poblogaidd megis ' Now is the Time ' ac ' I'll Go Where the Music Takes Me '.

Mae Angelo Starr yn ganwr a chynhyrchydd recordiau Americanaidd. Mae hefyd yn frawd iau i'r canwr diweddar Edwin Starr.

Cychwynnodd Precious Wilson fel canwr cefnogi i'r grwp dynion Eruption ac yn 1977 tra ar y ffordd yn teithio'r yr Almaen y dewiswyd y band i gefnogi Boney M. Roedd eu fersiwn disgo o gân Ann Peebles, "I Can't Stand the Rain" yn llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r digwyddiad rhad ac am ddim hwn, a drefnir gan Gyngor Sir Ddinbych ac a gefnogir gan Gyngor Tref y Rhyl, yn dathlu cerddoriaeth rhai bandiau eiconig.

Dywedodd Arweinydd Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh Evans OBE, sy'n aelod arweiniol ar gyfer yr economi: "Rydym yn falch iawn o gael cyhoeddi'r perfformwyr ar gyfer yr Wyl eleni. Dyma un o brif ddigwyddiadau'r haf yn y Rhyl ac mae disgwyl i gefnogwyr cerddoriaeth gael gwledd.

"Mae rhaglen yr haf o ddigwyddiadau yn denu miloedd o ymwelwyr i'r dref, gan wneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol ac rydym yn sicr y bydd sioe Seaside Soul yn un wych".

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Bydd yr Arena Ddigwyddiadau yn dod â diwrnod o gerddoriaeth yr enaid i'r Rhyl. Gyda llinell fawr arall o fandiau a DJs, mae'r digwyddiad yn addo l rhywbeth at ddant pawb a Glan y môr y Rhyl yn bendant yw'r lle i fod yr haf hwn gyda digwyddiadau lu. Mae Cyngor Tref y Rhyl yn falch iawn o fod yn cefnogi dydd Sul mawr arall ac edrychwn ymlaen at groesawu trigolion ac ymwelwyr i faes y digwyddiadau. "

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â chanolfan groeso'r Rhyl, ar 01745 355068.